| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**General Certificate of Secondary Education**

| I'r Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc uchaf** | **Marc a ddyfarnwyd** |
| **1.** | **3** | |
| **2.** | **2** | |
| **3.** | **3** | |
| **4.** | **3** | |
| **5.** | **3** | |
| **6.** | **15** | |
| **7.** | **14** | |
| **8.** | **17** | |
| **9.** | **20** | |
| **10.** | **20** | |
| **ACY** | **5** | |
| **Cyfanswm** | **105** | |

122/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**PAPUR 1 (G-C)**

**HAEN SYLFAENOL**

P.M. DYDD IAU, 15 Mehefin 2006

(2 Awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Cewch ddefnyddio cyfrifiannell.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion i bob cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn cwestiwn-ac-ateb hwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau ar gyfer pob rhan o gwestiwn mewn cromfachau.

Cewch farciau am ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig.


Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

**1.** Pa **dri** o'r canlynol sy'n gyfrifoldebau'r adran bersonél neu'r adran adnoddau dynol mewn cwmni? [3]

D.S. *Ticiwch* ***dri*** *blwch yn unig.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwynion cwsmeriaid  | | Cwblhau'r cyfrifon  | |
| Hysbysebu swyddi   | | Gofalu am les y gweithwyr  | |
| Dewis ymgeiswyr swyddi newydd  | | Cynllunio cynhyrchu  | |

**2.** Pa **ddau** o'r canlynol sy'n ddulliau ymchwil desg? [2]

D.S. *Ticiwch* ***ddau*** *flwch yn unig.*

Darllen cylchgronau masnach ☐

Defnyddio arolygon ffôn ☐




Defnyddio profion defnyddwyr ☐

Edrych ar ystadegau'r Llywodraeth ☐

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Pa **dri** o'r canlynol sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r ffaith fod Prydain yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd? [3]

D.S. *Ticiwch* ***dri*** *blwch yn unig*.

| | | |
|---|---|---|
|  | Llai o fasnach rhwng busnesau Prydeinig ac Ewrop. | |
|  | Gweithwyr Prydeinig yn ei chael hi'n haws cael hyd i waith yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd. | |
|  | Mwy o fasnach gydag Unol Daleithiau America. | |
|  | Dim tollau *(customs duties)* yn cael eu talu wrth symud nwyddau rhwng gwledydd yr Undeb Ewropeaidd. | |
|  | Mwy o fasnach gyda gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd. | |

**4.** Mae Mohammed Quereshi yn gwneud cais i'w fanc am fenthyciad. Gofynnwyd iddo anfon cynllun busnes. Rhestrwch **dri** darn o wybodaeth **ariannol** y gallai Mohammed eu cynnwys yn ei gynllun busnes. [3]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

(iii) ..............................................................................................................................



**Trosodd.**

**5.** Isod mae nifer o dermau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn busnes.

**CYNHYRCHU YN ÔL Y GWAITH**
*(Job Production)*

**AEDDFEDRWYDD**

**RHANIAD LLAFUR**

**LANSIO**

**DARBODION MAINT**

**SWP-GYNHYRCHU**
*(Batch Production)*

Pa un o'r uchod sy'n disgrifio **pob un** o'r canlynol orau: [3]

*(a)* dull cynhyrchu lle caiff nwyddau eu gwneud yn unol ag archebion cwsmeriaid unigol;

..............................................................................................................................................

*(b)* system lle mae gweithwyr yn arbenigo yn y swydd y maent fwyaf medrus ynddi;

..............................................................................................................................................

*(c)* cyflwyno nwydd newydd i'r farchnad?

..............................................................................................................................................

# TUDALEN WAG

**6.**




Mae'r ffotograff uchod yn dangos siop fferyllydd *(chemist)* ger meddygfa *(doctor's surgery)*. Mae hi ar brifford sy'n mynd trwy stad fawr o dai ar gyrion *(outskirts)* tref yng Nghymru. Mae'r siop yn fusnes adwerthu cydweithredol.

*(a)* Ym mha sector - cynradd, eilaidd neu drydyddol - y mae'r busnes hwn yn gweithredu? Rhowch reswm dros eich ateb. [2]

*(b)* Pa **un**, o'r rhestr isod, sy'n berchenogion busnes adwerthu cydweithredol? Tanlinellwch eich ateb. [1]

Y Llywodraeth

Y trethdalwyr

Y cwsmeriaid

*(c)* Awgrymwch ac eglurwch **ddau** reswm pam mae'r siop fferyllydd sydd i'w gweld yn y ffotograff mewn lleoliad da. [4]

(i)

(ii)

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Eglurwch ffyrdd y gall busnesau, fel busnesau cydweithredol, ddefnyddio'r cymysgedd marchnata i werthu mwy o nwyddau. [8]

**7.** Mae *Carl's Cars* yn garej o faint canolig yn nhref Tonnewydd. Mae'r busnes yn cyflogi wyth mecanydd sy'n cael eu talu £11 yr awr.

Isod mae slip cyflog ar gyfer Jane Price, un o'r mecanyddion sy'n gweithio i *Carl's Cars*. Astudiwch y slip cyflog ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.



**Carl's Cars**
**Slip Cyflog**

| DYDDIAD | WYTHNOS DRETH | ENW |
|---|---|---|
| 20/6/06 | 12 | Jane Price |

| RHIF Y.G. | COD TRETH | BANC | COD BANC | CYFRIF |
|---|---|---|---|---|
| YM123456D | 458L | Lloyds TSB | 30-90-70 | 00772311 |

**ELENI**

| CYFLOG TRETHADWY | TRETH A DALWYD | YSWIRIANT GWLADOL | PENSIWN | RHODD ELUSENNOL |
|---|---|---|---|---|
| £5200.00 | £750.00 | £500.00 | £312.00 | £24.00 |

**YR WYTHNOS HON**

| CYFLOG CRYNSWTH | | DIDYNIADAU | | CYFANSYMIAU | |
|---|---|---|---|---|---|
| SYLFAENOL | £440.00 | *PAYE*<br>Y.G.<br>PENSIWN<br>ELUSEN | £63.00<br>£44.00<br>£26.00<br>£2.00 | CYFLOG CRYNSWTH<br><br>LLAI | |
| CYFLOG CRYNSWTH | £440.00 | CYFANSWM | £135.00 | CYFLOG NET | ? |

*(a)* Cyfrifwch gyflog net Jane Price. (Dangoswch eich gwaith cyfrifo.) [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(b)* Caiff treth incwm ei chasglu gan ddefnyddio system a elwir yn *PAYE*. Beth mae'r llythrennau hyn yn ei gynrychioli (yn Saesneg)? [1]

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* (i) Pam mae gweithwyr, fel Jane Price, yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol? [1]

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

(ii) Rhowch **un** enghraifft o sut y gallai Jane ennill *(gain)* o dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. [1]

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

*(ch)* Cyfrifwch gyfanswm bil cyflogau wythnosol *Carl's Cars* ar gyfer yr wyth mecanydd sydd i gyd yn cael eu cyflogi am 40 awr yr wythnos am £11 yr awr. (Dangoswch eich gwaith cyfrifo.) [2]

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

*(d)* Rhowch **un** enghraifft o ddidyniad gwirfoddol y mae Jane yn ei dalu o'i chyflog. [1]

...............................................................................................................................

*(dd)* Mae *Carl's Cars* yn dymuno cyflogi dau fecanydd yn ychwanegol.

Awgrymwch ffyrdd y gallai *Carl's Cars* hysbysebu am y mecanyddion. Rhowch resymau dros eich awgrymiadau. [6]

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

...............................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**8.** Mae Julian Smith yn awyddus i gychwyn ei fusnes ei hun ar ôl cael gradd. Mae'n credu bod cyfleoedd ar gael iddo yn ei ddinas ei hun, sef Abertawe, i gychwyn busnes glanhau swyddfeydd.



*(a)* Awgrymwch **dri** rheswm pam mae Julian yn dymuno cychwyn ei fusnes ei hun. [3]

(i) ..........

..........

..........

(ii) ..........

..........

..........

(iii) ..........

..........

..........

*(b)* Mae Julian yn ystyried rhedeg ei fusnes fel unig fasnachwr. Awgrymwch ac eglurwch **ddwy** broblem y gallai Julian eu hwynebu. [4]

(i) ..........

..........

..........

..........

(ii) ..........

..........

..........

..........

*(c)* Awgrymwch **ddau** fath o gyfathrebu allanol y gallai Julian eu defnyddio wrth redeg ei fusnes. [2]

(i) ..........

(ii) ..........

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Mae Julian wedi darllen y wybodaeth ganlynol ar wefan fusnes.

## Croeso i *Rainbow International*

Cwmni trwydded/masnachfraint *(franchise)* a gychwynnwyd yn y DU yn 1987 yw *Rainbow International*. Mae gennym fwy na 130 o ganghennau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau glanhau proffesiynol ar gyfer cartrefi ac adeiladau busnes.

Mae trwyddedeion *(franchisees)* newydd yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth i sicrhau llwyddiant pob busnes newydd. Mae trwyddedeion presennol yn dweud mai ein systemau yw'r allwedd i gyflawni llwyddiant busnes.

Ein prif ffynhonnell incwm fel trwyddedwr *(franchisor)* yw breindaliadau *(royalties)* sy'n seiliedig ar ganran o drosiant y trwyddedeion.

*Addaswyd o www.rainbow-int.co.uk*

*(ch)* Trafodwch fanteision **ac** anfanteision o Julian yn dod yn un o drwyddedeion *Rainbow International*. [8]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**9.** Darllenwch yr erthygl isod ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

## Cawr ym myd jîns mewn brwydr ynghylch nod masnach

Mae *Howies*, cwmni dillad bach yng Ngorllewin Cymru, yn wynebu brwydr gyfreithiol gydag un o wneuthurwyr mwyaf jîns yn y byd. Mae *Howies*, sydd â phum aelod o staff yn unig, wedi cael ei herio gan *Levi Strauss and Co* sy'n cyflogi 12,000 o bobl. Mae'r busnes Americanaidd yn cyhuddo'r cwmni Cymreig o gopïo label coch enwog **brand** *Levi* drwy roi label llwyd ar boced ôl ei jîns. Fe wnaeth *Levi Strauss* batentu ei hawl i roi ei logo ar y boced ôl dde gyntaf yn America yn 1938. Nawr mae wedi ysgrifennu at y cwmni Cymreig yn dweud y gallai'r brand *Howies* achosi dryswch ymhlith cwsmeriaid.

Mae *Howies* yn gwneud tua 15,000 o grysau T a 2,000 o barau o jîns y flwyddyn a hoffai gynhyrchu mwy drwy gyflogi mwy o weithwyr a symud i leoliad newydd.

*Addaswyd o www.bbc.co.uk 1 Mai 2003*

*(a)* Mae'r brand *Levi Strauss* yn bwysig i'r cwmni hwnnw. Pam mae brand mor bwysig wrth farchnata cynnyrch? [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Mae *Howies* yn gwneud dillad ar gyfer beicwyr a sgrialwyr *(skateboarders)* hefyd. Mae gan berchenogion *Howies* bolisïau moesegol cadarn, e.e. maent yn defnyddio brethyn organig, nad yw wedi cael ei drin â phlaleiddiaid *(pesticides)*, ac mae ei weithwyr yn cael "diwrnodau rhy braf i weithio" pryd y cânt eu hannog i fynd allan i feicio a sgrialu.

*(b)* Eglurwch pam mae gan rai cwmnïau, fel *Howies*, bolisïau moesegol cadarn. [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Disgrifiwch yn gryno **ddau** gam, ar wahân i hysbysebu, y bydd angen i *Howies* eu cymryd i recriwtio'r math iawn o berson os bydd yn cyflogi mwy o bobl. [4]

(i) ..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

"Ym mis Ionawr 2002 fe wnaethom anfon ein cynllun busnes at ffrindiau yn y gobaith o godi rhywfaint o arian er mwyn ehangu ein busnes. Cawsom tua dwsin o fuddsoddwyr, gyda llawer o'r rhain yn rhoi eu cynilion i'n helpu ni i fyw ein breuddwyd."

*Addaswyd o www.howies.co.uk*

*(ch)* Awgrymwch a gwerthuswch **ffyrdd eraill** y gallai *Howies* godi'r arian i ehangu ei fusnes. [8]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

**10.** Darllenwch yr erthygl isod ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

## Swyddi newydd mewn cwmni bwyd organig

Cychwynnwyd *Rachel's Organic* gan y ffermwyr Gareth a Rachel Rowlands yn 1984. Mae ei lwyddiant wedi adlewyrchu'r cynnydd cyflym yn y galw am fwyd a diod organig dros y deng mlynedd diwethaf. Gwerthwyd y busnes i gynhyrchydd llaeth organig o America, *Horizon Organic*, yn 1999.

Bydd estyniad i'r llaethdy *(dairy)* yn costio tair miliwn o bunnoedd, yn creu 50 o swyddi newydd ac yn treblu'r gallu cynhyrchu *(capacity)*. Bydd hynny'n caniatáu i *Rachel's Organic* yn Aberystwyth dargedu tir mawr Ewrop. Ar hyn o bryd mae iogyrtiau, llaeth, hufen a menyn *Rachel's Organic* yn cael eu gwerthu ledled y DU ac yn cael eu cynnig mewn gwestai o'r safon uchaf yn Llundain. Dywedodd y rheolwr-gyfarwyddwr, Neil Burchell, fod yr estyniad yn hanfodol i gynlluniau tymor hir y cwmni. "Gan weithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru rydym yn bwriadu torri i mewn i farchnad cyfandir Ewrop y flwyddyn nesaf," meddai.

Yn ogystal ag ehangu i mewn i Ewrop mae'r cwmni'n benderfynol hefyd o ehangu amrywiaeth *(range)* y cynhyrchion y mae'n eu gwerthu.

*Addaswyd o www.bbc.co.uk 11 Tachwedd 2004*

*(a)* Mae pecynnu yn amlwg yn bwysig i *Rachel's Organic*. Pam mae pecynnu'n bwysig mewn gwerthu cynhyrchion gan *Rachel's Organic*? [4]

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

*(b)* Awgrymwch ac eglurwch resymau pam roedd busnes mawr Americanaidd fel *Horizon Organic* yn dymuno trosfeddiannu busnes llai fel *Rachel's Organic*. [4]

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Eglurwch pam mae cwmnïau fel *Rachel's Organic* yn ceisio gwella amrywiaeth *(range)* eu cynhyrchion drwy'r amser. [4]

..........

*(ch)* Gwerthuswch gynllun *Rachel's Organic* i werthu ei gynhyrchion yn Ewrop. [8]

..........